



Gwers 15



Cyfres Stori Duw

Gwlad yr addewid rhan 2 – o'r diwedd!

Josua 5: 13 – 15, 6: 1–20

Nod:

Gweld bod Duw yn ffyddlon i'w addewidion. Deall hefyd bod Duw yn mynnu lle canolog ym mywyd ei bobl.

Adnodau:

Josua 5: 13 – 15, 6: 1–20

Cefndir:

I ddechrau holwch a oes rhai o'r bobl ifanc wedi bod ar daith gerdded hir? Beth oedd hyd y daith? Faint o amser gymerodd hi? Os cofiwch chi, yn y wers y tro diwethaf, gwnaeth cenedl Israel wrando ar fwyafrif yr ysbiwyr, ac yn hytrach na rhoi eu ffydd yn Nuw fe wnaethant wrthod meddiannu'r wlad yr oedd Duw wedi paratoi ar eu cyfer. Eu cosb gan Dduw oedd nad oedd neb a oedd dros ugain oed yn cael mynd i mewn i wlad yr addewid, heblaw dau ohonynt, sef Josua a Caleb. Roedd yn rhaid iddynt gerdded yn yr anialwch am 40 mlynedd!!

Yn y wers heddiw, mae'r 40 mlynedd ar ben, mae'r Israeliaid wedi cyrraedd gwlad yr addewid ac maent yn dechrau ar y gwaith o feddiannu'r wlad.

Gweithgaredd:

Gallwch ddewis un o'r gweithgareddau canlynol, neu os oes amser gallwch wneud y ddau.

1. Castell Cardiau – fe fydd arnoch angen dau becyn o gardiau. Rhannwch y dosbarth yn ddau, a rhoi pecyn yr un iddynt. Fe fydd y ddau dîm yn cystadlu i weld pwy all adeiladu'r

tŷ cardiau mwyaf. Gallwch roi gwobr i'r tîm buddugol.

2. Waliau blasus – Fe fydd angen;

Marshmallows mawr, marshmallows llai, menyn cnau mwnci a/neu eising siocled, prisiau dannedd.

Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp a gofyn iddynt adeiladu wal, gan ddefnyddio'r marshmallows fel brics, yr eising neu'r menyn cnau mwnci fel sment, a'r prisiau dannedd i'w ddal at ei gilydd. Wedi iddynt orffen dywedwch wrthynt am ddymchwel y waliau drwy eu bwyta. (cofiwch wneud yn siŵr nad oes gan neb alergedd)

Darllen yr hanes:

Darllenwch chi Josua 5:13–15 ac esbonio bod Josua yn gweld angel yma. Mae Duw am i Josua a'r Israeliaid wybod ei fod Ef yn mynd i fod yn mynd o'u blaen, a'i fod Ef, y Duw hollalluog, o'u plaid. Mae'r gorchymyn i Josua dynnu ei sandalau yn ein hatgoffa o Moses pan siaradodd Duw ag ef drwy'r berth oedd ar dân. Mae'r tir hwn yn sanctaidd gan mai gwlad pobl Dduw yw hon i fod, y wlad y mae wedi'i haddo, y wlad y mae eisiau byw ynddi ymysg ei bobl. Y wlad y bydd ei thrigolion, o'i addoli, ei garu, a dilyn ei gyfraith, yn arwain gwledydd a chenhedloedd eraill i berthynas â Duw.

Rhowch y bobl ifanc i eistedd mewn cylch a gofyn iddynt ddarllen adnod yr un yn eu tro, o Josua 6 : 1 hyd adnod 20.

Wedi gorffen darllen, gofynnwch iddynt baratoi drama o'r hanes. Gallant wneud

hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd, gallant aralleirio'r darn a'i adrodd yn eu geiriau eu hunain wrth ei actio, neu gall rhai o'r dosbarth actio wrth i un neu ddau lefarydd ddarllen yr hanes, neu gallwch chi adrodd yr hanes wrth iddynt hwy ei actio.

Yn ystod y gweithgaredd hwn, rhowch arweiniad iddynt, ond os yw'n bosibl, gadewch iddynt hwy wneud y rhan fwyaf o'r gwaith ac astudio'r darn ar gyfer y ddrama eu hunain. Gwnewch yn siŵr eu bod yn cadw at y testun hyd yn oed os ydyn nhw'n actio'r ddrama yn fodern yn ein cyfnod ni heddiw.

Gêm:

Gallwch ddewis un o'r gemau hyn neu wneud y ddau;

1. 'Mae Duw yn dweud'. Gêm debyg i 'Mae Seimon yn dweud', lle byddwch chi'n rhoi cyfarwyddiadau, e.e. sefwch ar un goes, dwylo ar y pen, eisteddwch ar y llawr ac ati. Dylai'r bobl ifanc ymateb i bob cyfarwyddyd sy'n dechrau â'r geiriau 'Mae Duw yn dweud' yn unig. Os bydd unrhyw un yn ymateb i gyfarwyddyd, a chithau heb ddweud 'Mae Duw yn dweud' gyntaf – maen nhw allan o'r gêm.

2. Dinistrio'r waliau. Bydd angen; 6 tun gwag (e.e. tun ffa pob, neu dun pys gwag wedi eu glanhau) a phêl (e.e. pêl tennis, neu bêl o'r un maint). Gwnewch dŵr allan o'r tuniau – 3 ar y gwaelod, 2 ar ben y rhain ac yna 1 ar y brig. Yna gofynnwch i'r bobl ifanc roi tro ar geisio taro'r tŵr i lawr trwy rowlio'r bêl ato. Yr enillydd yw'r un sy'n taro'r nifer fwyaf o duniau drosodd. Gallwch greu twrnaint os

hoffech lle mae pawb yn cael tri chynnig, a chaiff y sgôr ei adio at ei gilydd.

Cloi:

Dyma Dduw yn cyflawni ei addewid i genedl Israel, maent yng ngwlad yr addewid, mae Ef gyda hwy, yn eu cynorthwyo, yn siarad â hwy ac yn eu bendithio. Ond nid yw pethau am aros fel hyn. Yn fuan yn hanes yr Israeliaid, byddant yn anghofio bod Duw wedi'u hachub o'r Aifft, anghofio ei fod wedi gofalu amdanynt yn yr anialwch, ac anghofio hefyd mai ef roddodd y fuddugoliaeth iddynt dros Jericho. Mae Duw yn cadw at ei ran Ef o'r cyfamod, ond unwaith eto, bydd yr Israeliaid yn gwrthod cyflawni eu rhan hwy. Gwelwn felly y bydd y fendith y mae Duw'n ei rhoi yn cael ei thynnu ymaith ac y bydd yr Israeliaid yn dioddef yn enbyd am gyfnodau hir, nes iddynt gofio unwaith eto am Dduw, edifarhau, a throi yn ôl ato. A chan ei fod yn Dduw ffyddlon, bydd Ef yn maddau iddynt, yn eu hadfer a'u bendithio eto.

Amser Addoli:

Ydyn ni'n mynd trwy gyfnodau fel yr uchod yn ein bywyd? Yn cymryd diddordeb mawr yn Iesu, yr eglwys, a Christnogaeth ar rai adegau, ac ar adegau eraill yn anghofio pob dim a mynd ein ffordd ein hun?

Beth am weddio y byddwn ni'n bobl sy'n ffyddlon i Dduw, fel yr oedd Ef yn ffyddlon i'r Israeliaid, ac fel y mae Ef yn ffyddlon i Gristnogion heddiw. Gweddïwch am nerth i garu Duw, a bod yn ffyddlon iddo, gan ei fod Ef yn ein caru ni ac yn ffyddlon i ni. Amen